# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur** | **Ardaloedd Draenio Mewnol – Praeseptau, Ardrethi ac Ardollau 2019–20** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 19.10** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Mark Howells, Partner Busnes Cyllid** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Rob Bell, Pennaeth Cyllid** |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br>• cymeradwyo praeseptau, ardrethi draenio ac ardollau arbennig yr Ardal Draenio Mewnol ar gyfer 2019–20;<br>• cymeradwyo'r cais newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol ar gyfer newid y dull o gyfrifo praeseptau ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | **Edrych ar yr hirdymor** - Bydd cynigion y gyllideb yn ffurfio rhan o'r strategaeth tymor hwy i sicrhau bod Ardaloedd Draenio Mewnol wedi'u paratoi'n ariannol ar gyfer cyflawni eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol.<br>**Gweithredu mewn ffordd integredig –** Bydd gweithio ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Grwpiau Cynghori yn sicrhau bod ein targedau yn cael eu hintegreiddio gyda'r adnoddau sydd ar gael.<br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth –** Mae cynigion y gyllideb ar gael er mwyn ymgynghori yn eu cylch gyda'r Grwpiau Cynghori.<br>**Gweithio mewn ffordd gydweithredol** – Mae ein rhaglenni gwaith yn cynnwys mesurau rydym yn eu cyflawni ar y cyd.<br>**Atal materion rhag digwydd –** Caiff y cyllidebau arfaethedig eu gosod gyda mewnbwn gan y Grwpiau Cynghori a staff Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd ag edrych ar berfformiad yn y gorffennol er mwyn sicrhau y gweithredir ar yr hyn a ddysgwyd. |

## Mater

1. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo argymhellion y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, a fydd yn ystyried ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2019-20 ar 11 Ionawr 2019.

2. Argymhellir bod y Bwrdd yn caniatáu'r cais newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol ar gyfer newid y dull o gyfrifo praeseptau ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn y dyfodol.

## Cefndir

3. Yn flaenorol, mae'r Bwrdd wedi cytuno i ddirprwyo ystyriaeth ofalus o faterion sy'n ymwneud ag Ardaloedd Draenio Mewnol i'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd.

4. Mae'r holl argymhellion ariannu wedi'u cytuno yn ystod holl gyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Ardaloedd Draenio Mewnol cyn cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd.

5. Rydym wedi rhannu'r cynnig i newid cyfrifiadau praeseptau yn y dyfodol gyda Grŵp Cynghori Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg er mwyn osgoi sefyllfa lle y byddai'n rhaid cynyddu ardollau arbennig ac ardrethi draenio yn sylweddol er mwyn ariannu cyfraniad yr Ardal Draenio Mewnol tuag at gynlluniau cyfalaf mawr. Nid oes cynllun yn y rhaglen ar hyn o bryd a fyddai'n cael effaith o'r fath ond cafwyd cynlluniau yn y gorffennol ac efallai y bydd angen ymgymryd â chynlluniau mawr yn y dyfodol, gan ystyried effeithiau newid hinsawdd.

## Asesu

6. Byddwn yn darparu diweddariad llafar ynghylch cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd o ran p'un a yw'n argymell cymeradwyaeth i'r Bwrdd. Gellir gweld y papur y gwnaeth y Grŵp ei ystyried yn **Atodiad A**, sy'n cynnwys manylion llawn y cynigion.

7. I grynhoi, yr argymhellion yw cynyddu praeseptau i £298k (o £278k), cynyddu ardollau arbennig i £1,188k (o £1,175k) a chynyddu ardrethi draenio i £176k (o £166k). Diben y cynnydd yw sicrhau ein bod yn adennill y swm cywir drwy'r praesept gan yr Ardaloedd Draenio Mewnol er mwyn cydnabod budd gwaith cynnal a chadw prif afonydd ar Ardaloedd Draenio Mewnol yng ngogledd-orllewin Cymru.

## Risgiau allweddol

8. Os na chaiff y praeseptau, ardrethi draenio ac ardollau arbennig eu cymeradwyo yna ni fyddwn yn cyflawni'r amserlenni statudol ac ni fydd y rhaglen waith yn cael ei hawdurdodi.

9. Cafodd y cynnydd i'r ardrethi draenio mewn Ardaloedd Draenio Mewnol yng ngogledd-orllewin Cymru eu trafod a'u cytuno gyda'r Grwpiau Cynghori ond mae perygl o hyd y bydd y rhai sy'n talu'r gost yn ymateb mewn modd gwrthwynebus pan fydd yr ardrethi'n cael eu cyhoeddi.

## Argymhellion

10. Cymeradwyo ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2019–20.

11. Cymeradwyo'r cais newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol ar gyfer newid y dull o gyfrifo praeseptau ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn y dyfodol.

## Goblygiadau ariannol

12. Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol yr Ardaloedd Draenio Mewnol. Bydd costau hysbysebu bychain yn gysylltiedig â hysbysu pobl o'r ardrethi draenio a gytunwyd yn yr ardal leol.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

13. Nid oes ei angen.

## Rhestr o Atodiadau

Atodiad A Papur y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd ar gynigion ariannu 2019-20 a'r cais am gymeradwyaeth newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol.

.